Ysgol Bro Tegid

Chwefror 2il, 2017

Parthed Ysgol Gydol Oes y Bala

Annwyl Mr Gareth Thomas

Fel Corff Llywodraethol Ysgol Bro Tegid, roeddem yn siomedig yn y penderfyniad i osod statws eglwysig ar yr ysgol newydd yn dilyn ymgynghoriad ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2015. Rydym yn credu'n gryf y dylai'r rhieni gael dewis sut addysg y dylai eu plant dderbyn, ac wrth roi statws eglwysig i'r ysgol newydd rydym yn cael ein hamddifadu o'r dewis hwn.

Fodd bynnag, roeddem yn fodlon derbyn y sefyllfa yn ddibynnol ar y cytundeb y byddai'n bosib ail edrych ar y sefyllfa yn dilyn cyfnod o ddwy flynedd ar ôl agor yr ysgol newydd.

Mae'r eglwys bellach wedi ymyrryd yn y broses ac wedi creu cryn ansicrwydd yn lleol ar ddyfodol yr ysgol. Maent wedi codi cwestiwn am y cymal dwy flynedd yn y llythyr ddyddiedig Medi 9fed 2016. Ofnwn mai rhagflas yw hwn o ymyrraeth pellach gan yr eglwys yn addysg ein plant wedi i'r ysgol agor. Mae hyn wedi ail agor y drafodaeth ac wedi dangos i ni unwaith eto mai ysgol gymunedol y dylai'r ysgol newydd fod.

Mae llywodraethwyr Ysgol Bro Tegid yn gofyn felly i Gyngor Sir Gwynedd gynnal ymgynghoriad newydd fel y gellir ail edrych ar statws yr ysgol newydd gyda'r dymuniad o gael ysgol gymunedol nad yw'n gysylltiedig yn ffurfiol ag unrhyw gorff crefyddol penodol.

Yr eiddoch yn gywir

Elen ap Gwilym (Cadeirydd)

SIAN EDWARDS

Efion Roberts

RITA JONES

DILYS EVANS — Dilys Evans

HAF ROWLANDS — Haf Rowlands

EMA TOMOS-THORP

Gwerfyl Williams
CLERC.

BETHAN EMYR JONES — B Jones

SARA RHIANNON MORRIS — S. Morris